ichthus

CYLCHGRAWN CHWARTEROL EGLWYS BEREA NEWYDD, BANGOR
Rhif 1 Cyfrol 17 Ionawr 2020

www.gofalaethbangor.org - 01248 353132 (swyddfa)

CROESO CYNNES GAN GYD-GRISTNOGION YM MRYNIAU CASIA

TUDALENNAU 4-6

GWASANAETHAU'R SUL

10.00: OEDFA DEULUOL GAN GYNNWYS YSGOL SUL Y PLANT
5.30: OEDFA'R NOS

Chwefror 2	Gweinidog
Chwefror 9	Parch. Hugh Pritchard
Chwefror 16	Gweinidog
Chwefror 23	Parch. Gwenda Richards
Mawrth 1	Gweinidog
Mawrth 8	Mr. Owain Davies
Mawrth 15	Gweinidog
Mawrth 22	Parch. Brian Wright
Mawrth 29	Parch. Cledwyn Williams
Ebrill 5	Gweinidog (plant Sul y Blodau)
Ebrill 12	Sul y Pasg
Ebrill 19	Gweinidog
Ebrill 26	Parch. Pryderi Llwyd Jones (10) Emaus (5.30)

DYLETSWYDDAU BLAENOR Y PYTHEFNOS

Chwefror 2	Menna Baines
Chwefror 9/16	Wyn Griffiths
Chwefror 23	Eirian Howells
Mawrth 1	Eirian Howells
Mawrth 8/15	Gareth Jones
Mawrth 22/29	Gwenno Pritchard
Ebrill 5/12	Alwyn Ll. Ellis
Ebrill 19/26	Robat Roberts
Mai 3	Gwyn Jones

DYLETSWYDDAU BLAENOR Y DRWS

Chwefror 2	Liz Roberts
Chwefror 9/16	Alwyn Ll. Ellis
Chwefror 23	Geraint Hughes
Mawrth 1	Geraint Hughes
Mawrth 8/15	Robat Roberts
Mawrth 22/29	Gwyn Jones
Ebrill 5/12	John W. Jones
Ebrill 19/26	John Griffths
Mai 3	Gareth Jones

RHODDWYR Y BLODAU (Cydlynydd: Elizabeth Roberts - 353915)

Chwefror 2	Meira Jones
Chwefror 9	Astra Thomas
Chwefror 16	Manon Davies
Chwefror 23	Eleri W. Jones
Mawrth 1	Elizabeth Evans
Mawrth 8	Betty Thomas
Mawrth 15	Val P. Jones
Mawrth 22	Eleanor Jones
Mawrth 29	Sioned Jones
Ebrill 5	Helen Morris
12 Ebrill	Menna Baines
19 Ebrill	Enyd Roberts
26 Ebrill	Maisie Griffiths
3 Mai	Blodwen Jones

GAIR GAN Y GWEINIDOG

Y PARCHEDIG ELWYN RICHARDS

Mae yna lawer wedi digwydd ers i *Ichthus* weld golau dydd ddiwethaf. Bu inni ddathlu'r Nadolig a'r flwyddyn newydd, cafwyd etholiad cyffredinol, a bellach – wrth imi ysgrifennu – ymddengys yn sicr y bydd Prydain yn gadael yr Undeb Ewropeaidd ddiwedd Ionawr. Gwelwyd tanau hefyd yn llosgi rhannau helaeth o dde-ddwyrain Awstralia a dirywiodd y sefyllfa wleidyddol yn y Dwyrain Canol.

Ar ddechrau blwyddyn gwelwn yn eglur yr angen o hyd am yr Eglwys a'r Efengyl, ac er gwaethaf llesgedd ein tystiolaeth yn y gorllewin, da yw inni atgoffa ein hunain o fywiogrwydd a brwdfrydedd pobl Dduw mewn sawl rhan o'r byd, a hynny'n aml yng nghanol amgylchiadau digon anodd.

Fis Rhagfyr diwethaf cefais i a Gwenda gyfle i ymweld â'r Eglwys ar fryniau Casia a Jantia yn Nhalaith Meghalaya yng Ngogledd-ddwyrain India. Dyma hen faes cenhadol Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac 'roedd gwahoddiad wedi ei estyn i fynychu cyfarfod i gofio am ymadawiad y cenhadon o'r India yn 1969. Anodd cyfleu'r parch anhygoel a erys hyd heddiw i'w gwaith a'u cyfraniad, a chyfeirir atynt yn gyson gyda chariad ac anwyldeb.

Oherwydd polisi'r llywodraeth ar y pryd y bu'n rhaid i'r cenhadon ymadael, ac 'roeddem ninnau yn India ar adeg pan oedd cryn drafod ar fwriad llywodraeth bresennol y Prif Weinidog, Narendra Modi, i ddiwygio Deddf Dinasyddiaeth 1955 i alluogi mewnfudwyr anghyfreithlon nad ydynt yn Fwslemiaid i ennill dinasyddiaeth.

Ofn taleithiau'r Gogledd-ddwyrain yw y bydd hyn yn peri dylifiad o fewnfudwyr o Fangladesh a Phacistan ac Affganistan gan greu problemau cymdeithasol, ac mae'r eglwysi hefyd yn gwrthwynebu'r newid gan ddadlau na ddylid sylfaenu dinasyddiaeth ar ymlyniad crefyddol, ac yn gweld y polisi fel cam pellach tuag at wneud India yn wlad Hindŵaidd.

Trafodwyd y mater yn Senedd India ar 10 Rhagfyr, ac fe lwyddodd y mesur, ond gan gymaint y gwrthwynebiad ar lawr gwlad 'roedd streic gyffredinol yn y Gogledd-ddwyrain a gwaharddiad ar deithio yn Meghalaya ac Assam y diwrnod hwnnw. 'Rhagluniaethol' yn ôl ein cyfeillion oedd ein bod wedi trefnu i hedfan adref o Guwahati y diwrnod blaenorol, ac yn wir, fe fu cryn helynt yno yn ystod y dyddiau a'r wythnosau canlynol, ac anfonwyd miloedd o filwyr i gadw trefn yn Assam.

Gobeithio yn wir y caiff yr Eglwys yng Ngogledd-ddwyrain India ryddid i barhau â'i gwaith a'i thystiolaeth, a gobeithio hefyd y cawn ninnau ysbrydoliaeth o'r newydd i arddel ein cenhadaeth yma.

Anfonwn ein cofion at ein holl aelodau a'n cyfeillion ar ddechrau blwyddyn, at y teuluoedd sydd mewn profedigaeth, ac at bawb sy'n wael neu'n llesg.

Boed i Dduw ein bendithio a rhoi inni nerth ac arweiniad i fod 'yn wir ddisgyblion, i'w annwyl Fab ei hun'.

Gyda chofion caredig a dymuniadau da am flwyddyn newydd lawn bendithion.

YMWELD Â BRYNIAU CASIA

Y PARCHEDIG ELWYN RICHARDS

Ym mis Rhagfyr cafodd ein gweinidog a'i wraig Gwenda gyfle i ymweld eto â rhan o India a fu ar un adeg yn un o brif feysydd cenhadol y Cymry a lle mae llawer o weithgarwch yn dal i ddigwydd.

Perthyn gweithgarwch a brwdfrydedd anhygoel i'r eglwysi ar Fryniau Casia a Jaintia yng Ngogledd-ddwyrain India. Dros y blynyddoedd 'rydym wedi ymweld â sawl eglwys yno ac wedi rhyfeddu at eu croeso a'u hysbrydolrwydd a'u gweithgarwch cymdeithasol.

Brynhawn Sul cyntaf ein hymweliad cawsom ymuno â chynulleidfa eglwys Laitumkhrah yn Shillong mewn oedfa bregethu. 'Roedd dros chwe chant o bobl yn bresennol, ac edrychai'r gynulleidfa yn ieuanc ryfeddol. Gwragedd oedd y mwyafrif, a llanwodd y capel o'r cefn i'r pen blaen, gydag amryw yn cyrraedd yn hwyr – rhai tua chwarter awr wedi i'r gwasanaeth ddechrau.

Ceir yn yr eglwys tua phedair mil o aelodau, a wasanaethir gan ddau weinidog

Capel Laitumkhrah – y gynulleidfa ar brynhawn Sul

a gweinidog dan hyfforddiant. Y Parchg Reuben G. Laloo oedd yn cymryd y gwasanaeth, a thema ei bregeth oedd ystyr codi'r groes a bod yn ddisgybl. Defnyddiodd gyflwyniad PowerPoint yn ddeheuig iawn i gyflwyno ei neges, ac er mai yn yr iaith Casi y traethai, 'roedd yn amlwg o ymateb y gynulleidfa ei fod yn bregethwr hwyliog, gafaelgar ac effeithiol. Y peth mawr, meddai, oedd ymatal rhag hunanoldeb, a chafwyd sawl enghraifft ganddo o godi'r groes yn ymarferol. Gyda'r nos, cawsom ymuno mewn oedfa arall, y tro hwn i gloi penwythnos dirwest a gynhaliwyd yn un o'r pentrefi ar gyrion Shillong. 'Roedd miloedd o gynrychiolwyr wedi bod yno ers deuddydd, ond amryw wedi dychwelyd adref cyn i ni gyrraedd. Eto, 'roedd yna gannoedd yn yr oedfa, a'r mwyafrif yn ieuenctid, a'r tro hwn cafwyd pregeth danllyd ryfeddol gan weinidog â llais fel taran.

Y diwrnod canlynol bu i ni ymweld â swyddfeydd Cymanfa Bresbyteraidd Casia Jaintia yn Shillong. Cawsom groeso twymgalon gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol, y Parchg S.S. Majow, a chyfle i gyfarfod rhai o'r gweithwyr – Ysgrifennydd Adran y Chwiorydd a Golygydd eu cylchgrawn; Ysgrifennydd yr Adran Datblygiad Economaidd a Chymdeithasol; Ysgrifennydd yr Adran Cenhadaeth Drefol, yr Ysgrifennydd Cenhadol, staff yr Adran Ariannol ac amryw eraill.

Does dim diwedd ar weithgarwch y Gymanfa, ac yn ddiweddarach yn y dydd bu i ni ymweld â chanolfan gynghori oedd yn cael ei rhedeg a'i chynnal gan Adran y Chwiorydd. Yno cawsom sgwrs â gwraig oedrannus o'r enw Kong Q. Giri a adroddodd ei phrofiad yn rhoi cychwyn i'r gwaith. Wedi agor y ganolfan ni ddaeth neb ar ei chyfyl am wythnosau, meddai, ac yn y diwedd bu'n rhaid iddi fynd allan i'r stryd i gyhoeddi ei neges. O dipyn i beth daeth pobl i wybod am y ganolfan a'i gwaith, a bu i rai o enwogion India droi ati am gyngor

Canolfan Hyfforddi Galwedigaethol y Chwiorydd yn Shillong

Yn y prynhawn aethom ymlaen i ganolfan arall o eiddo'r chwiorydd oedd yn darparu hyfforddiant galwedigaethol ac yn dysgu merched ifanc i bwytho a gweu, fel bod ganddynt grefft a ffon fara. Cynigid yno hefyd hyfforddiant cerddorol ar fore Sadwrn, ac ystyrid hynny fel modd i glymu'r ieuenctid yn dynnach wrth yr eglwysi. Tlodaidd oedd y ganolfan, ond 'roedd gan y chwiorydd gynlluniau i'w hymestyn, a chyfeirient at haelioni'r rhai a gyfrannai at y gwaith.

Yr hyn oedd yn drawiadol ym mhob man oedd bod popeth a wnâi'r eglwys a'i haelodau yn cael ei gyflwyno i Dduw mewn gweddi. Doedd dim byd yn rhy ddibwys i'w ddwyn i sylw'r Hollalluog, ac

'roedd pob gweddi yn cael ei gwisgo mewn dillad gwaith.

Yn Shillong 'roedd gan yr eglwysi lleol ysgolion a chyswllt cyson â meysydd cenhadol yn Assam a thaleithiau eraill. Rhoddent bwyslais ar ymestyn allan i'r gymuned a gwaith ieuenctid, a gwelsom sawl capel oedd yn cael ei adnewyddu a'i ymestyn. Un o uchafbwyntiau'r daith oedd ymweld unwaith eto â chartref 'genod Annie Thomas yn Shillong a chyflwyno *trainers* newydd i'r merched.

Mae'r eglwysi ar fryniau Casia a Jaintia yn wynebu rhai o'r un problemau â ninnau – seciwlariaeth, unigolyddiaeth, a phroblemau cymdeithasol megis camddefnydd o alcohol a chyffuriau a thrais yn y cartref – ond hyd yma ymddengys fod yr had a heuwyd gan y cenhadon yn dal i egino.

Capel Laitumkhrah – y Parchg. Elwyn Richards a'r Parchg. Gwenda Richards yn y siolau a gawsant yn anrhegion, yng nghwmni'r ddau weinidog, y Parchg Reuben G. Laloo (ar y chwith iddynt) a'r Parchg Elishua Kharmawphlang

Cynhelir y Seiat dros baned ar brynhawn dydd Mercher (gw. Y Dyddiadur, tud.19). Mae'n gyfle i rannu syniadau, cael sgwrs a chyfnewid profiadau. Eleni byddwn yn cymryd pwnc gwahanol bob tro. Dewch i wrando ac i ddweud eich barn. Mae croeso i bawb.

MAE 24 CHWEFROR HYD 8 MAWRTH YN BYTHEFNOS MASNACH DEG. DYMA AIR AM Y MUDIAD YN GYFFREDINOL AC YN LLEOL YMA YM MANGOR GAN DDWY O'N HAELODAU.

PYTHEFNOS MASNACH DEG

DELYTH MARIAN WILIAMS

Mae hi'n anodd credu bod 22 o flynyddoedd ers i Gymru fod y Genedl Fasnach Deg gyntaf yn y byd, a hynny'n ôl yn 2008. Un o'r amodau oedd bod dros 75% o'r boblogaeth yn gyfarwydd â Masnach Deg. Felly, mae'n debygol eich bod chi'n gyfarwydd â'r logo du, glas a gwyrdd erbyn hyn! Mae sawl esboniad ar ystyr y logo; yn ôl rhai mae'r awyr las yn symbol o obaith, y gwyrddni'n symbol o dyfiant a'r llaw yn yr awyr yn symbol o rymuso; grymuso'r bobl hynny sy'n gyfrifol am dyfu a chynhyrchu nwyddau o bob math drwy sicrhau pris teg am y cynnyrch, amodau gwaith gwell a chynaladwyedd lleol.

Mae'n debyg mai siocled, coffi a the oedd y tri chynnyrch cyntaf i gael eu gwerthu ym Mhrydain gyda'r logo Masnach Deg arnynt a hynny'n ôl yn 1994, ond mae'r mudiad ei hun yn bod ers 1946.

Erbyn heddiw mae dros 6,000 o nwyddau Masnach Deg ar gael i ni eu prynu a rheini'n dod o dros 70 o wledydd y byd. Maent yn amrywio o flodau i aur pur, o hufen iâ i esgidiau o bob math ac o golur i bêl droed.

Beth am i ni i gyd wneud ymdrech i brynu ambell eitem Masnach Deg ychwanegol yn ystod Pythefnos Masnach Deg eleni? Mae'r ymgyrch flynyddol yn mynd yn ôl at ei gwreiddiau y tro hwn gan ganolbwyntio ar ffermwyr coco Gorllewin Affrica, lle mae angen £1.86 y dydd i fedru cynnal incwm byw. Mae'r ffermwr coco cyffredin yn ennill 74 ceiniog y dydd ar gyfartaledd a'r amodau yn waeth byth i ferched. Mewn cymhariaeth, mae'r diwydiant siocled ym Mhrydain yn unig yn werth dros £4 biliwn; dydy hynny'n ddim llawer o syndod os ydi'r ffaith ein bod ni ym Mhrydain, ar gyfartaledd, yn bwyta 3 bar o siocled yr wythnos yn gywir.

GRŴP MASNACH DEG BANGOR

MEIRA JONES

Mae'n siŵr eich bod i gyd wedi cynorthwyo MD [Masnach Deg] mewn un ffordd neu'i gilydd trwy fynd i foreau coffi bob Sadwrn cynta' yn y mis neu brynu nwyddau. Gan mai fi ydi eich cynrychiolydd, efallai yr hoffech wybod mwy am ein gweithgareddau.

Mae Bangor yn Ddinas Masnach Deg er

2008. Mae hyn yn golygu bod nifer fawr o siopau, tai bwyta, caffis, capeli ac eglwysi, a sefydliadau eraill ym Mangor yn cefnogi MD ac yn defnyddio neu'n gwerthu'r nwyddau. Mae angen i ni wneud cais bob dwy flynedd i sicrhau statws Bangor fel dinas MD, ac 'rydym newydd wneud cais i adnewyddu ein statws am gyfnod arall. Mae Pencadlys Sefydliad Masnach Deg yn Llundain ond Llywodraeth Cymru trwy'r sefydliad Cymru Masnach Deg sydd yn ein cynorthwyo ni.

Mae'r pwyllgor yn cynnwys Cadeirydd, Ysgrifennydd, Trysorydd a phedwar aelod arall, ac aelod o Gyngor y Ddinas. Yr ydym yn cyfarfod o leiaf deirgwaith y flwyddyn. Y mae yna, wrth gwrs, rwydwaith o gefnogwyr brwd megis Pwyllgor Masnach Deg y Brifysgol, pobl y gweithgareddau lleol – yn enwedig y boreau coffi yn Emaus; aelodau o Gymdeithas Gwynedd Affrica. Cymraeg ydi iaith y pwyllgorau a'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau

PROSIECT 2019–20

Mae gan ein Cadeirydd, Jenny Pye, brofiad helaeth dros y blynyddoedd o wirfoddoli i helpu amryw o gymunedau tlawd, gan gynnwys Nepal ar ôl y ddaeargryn; gwledydd yn Affrica; y Philippinau; a Bangladesh. Eleni aeth Jenny i bentref Chikwawa ym Malawi. Dyma'r wlad bedwaredd dlotaf yn y byd. Mae Chikwawa yn agos i afon ac yn gynharach eleni dioddefodd effeithiau seiclon pan chwalwyd cartrefi ac y difawyd llawer o gnydau. Collodd y trigolion eu bywoliaeth. Ddechrau'r haf ymwelodd Jenny â'r pentrefi a gwirfoddoli i weithio gyda'r ffermwyr. Cysylltodd â DIN *[Development Initiative Network]* gyda'r amcan o ffurfio partneriaeth â nhw. A hithau'n feicwraig brofiadol, yn naturiol aeth â'i beic efo hi a beicio neu gerdded ydy'r unig ffordd y mae'r mwyafrif helaeth o'r bobl yn gallu fforddio teithio yno.

NOD MASNACH DEG

- Pris teg a sefydlog i gynhyrchwyr o dan anfantais mewn gwledydd sy'n datblygu
- Cyflog teg a safonau priodol ar gyfer amodau gweithio
- Mwy o barch at yr amgylchedd
- Perthynas fasnachu dymor hir sy'n galluogi cynllunio ar gyfer y dyfodol
- 'Premiwm cymdeithasol' – arian ychwanegol i dalu am brosiectau cymunedol megis ysgolion a gofal iechyd

Sefydlwyd DIN Malawi yn 2012 er mwyn gweithio yn uniongyrchol gyda phobl Chikwawa gyda chymorth eu partneriaid sydd bellach yn ein cynnwys ni. Golyga hyn weithio'n galed i wella bywyd y trigolion mewn amryfal ffyrdd, e.e. hyfforddi, ariannu, dysgu sgiliau, a gwella ansawdd bywyd. Mae angen llawer o gymorth. Dibynna'r trigolion bron yn llwyr ar eu cnydau eu hunain – sef mais yn bennaf. Pan y'u difodwyd nid oedd gan y bobl fawr ddim arall i'w cynnal. Yn ddiweddar 'rydym wedi llwyddo i gael grant trwy Hwb Cymru Affrica. Bydd y grant yn gymorth iddyn nhw brynu geifr, moch, a ieir i'w helpu i arallgyfeirio ac i beidio â bod mor ddibynnol ar y cnydau. Bydd y prosiect hefyd yn cyfrannu at sicrhau pethau ymarferol megis pympiau dŵr, peiriannau gwnïo, cyfarpar cadw gwenyn, beiciau, ac at gyflog i bedwar o staff ym Malawi sy'n rhedeg y prosiect.

Yn y flwyddyn i ddod bydd saith aelod o'r Pwyllgor yn cyfrannu at brosiect Chikwawa trwy rannu profiad a gwybodaeth gyda'r bobl yno. Dyma sut y rhannwyd y gwaith:
JENNY (Cadeirydd) – amaethyddiaeth a'i hamryw ofynion
CATRIN (Ysgrifenyddes) – cadw egwyddorion MD, bwyd a'r bendithion
WESLEY – cadw gwenyn a chynhyrchu mêl
HENNY – hyfforddiant merched. Maent yn priodi a chael plant yn ifanc iawn.
MEIRA – iechyd gan gynnwys *HIV/Aids.* Gobeithir cysylltu grŵp ym Mangor ag un yn Chikwawa
ANGELA – hwyluso addysg i blant ysgolion Bangor am MD. Bwriedir gwneud fideo mewn ysgol gynradd yma ac mewn ysgol yn Chikwawa i'w rannu.
DILWEN (Trysorydd) – hyrwyddo'r angen i sicrhau chwarae teg i weithwyr yn y gwledydd sy'n datblygu

Yn ychwanegol at hyrwyddo gwaith MD yn ymarferol, h.y. swcro busnesau a siopau Bangor i brynu a gwerthu eu nwyddau, mae cynnal y boreau coffi ar fore cyntaf y mis yn Emaus yn bwysig ac yn boblogaidd iawn. Catrin a Dilwen sy'n trefnu prynu a gwerthu'r nwyddau MD trwy'r flwyddyn yn y boreau.

'Rydym hefyd yn trefnu gweithgareddau yn ystod Pythefnos MD ar ddiwedd Chwefror/dechrau Mawrth bob blwyddyn. Rhoddir sgyrsiau am gynnyrch MD sy'n dod o wahanol wledydd, ac mae sawl ffermwr wedi bod draw trwy gymorth Masnach Deg Cymru i sôn am eu gwaith a sut mae MD yn eu helpu.

Felly cofiwch, os gwelwch yn dda, gyd-aelodau Berea Newydd – pan fyddwch yn prynu nwyddau gyda logo MD, yr ydych yn cyfrannu tamaid bach at helpu'r bobl sydd â gwir angen ein cefnogaeth yn y gwledydd sy'n datblygu, fel y bobl anffodus hyn yn Chikwawa.

Pe dymunid gallai Jenny ddod atom i sgwrsio am y prosiect cyn diwedd 2020.

Jenny Pye, Cadeirydd Grŵp Masnach Deg Bangor, yn Malawi

PLANT, IEUENCTID A THEULUOEDD

OWAIN DAVIES

TRIPIAU'R CLYBIAU

Cafodd y clybiau fynd ar dripiau Nadolig ym mis Rhagfyr. Bu aelodau Cic Bang yn Snowdonia Adventure, Dolgarrog, a bu plant Cic Bach a Cic Bach Llai yn yr Hwylfan, Caernarfon.

GWASANAETHAU NADOLIG

Cafwyd gwasanaeth gwych gan y plant ar 15 Rhagfyr. Cyflwynwyd stori'r geni yn effeithiol iawn ar ffurf drama gyda llefarwyr cyfoes yn arwain a dehongli, a chafwyd darlleniadau, gweddïau ac unawd gan rai o'r plant hŷn. 'Roedd y band, fel arfer, hefyd yn ychwanegu llawer at yr achlysur.

Y Sul canlynol, tro'r bobl ifanc oedd hi. Unwaith eto cafwyd gwasanaeth graenus a bendithiol iawn. I ddilyn cafwyd paned a mins pei yn y festri, ac 'roedd hi'n braf cael cyfle i holi hanes yr ieuenctid, nifer ohonynt newydd ddod adref o'r coleg dros y gwyliau.

PARTI NADOLIG YR YSGOL SUL

Cafodd yr Ysgol Sul barti Dolig hwyliog iawn a hynny'n syth wedi eu gwasanaeth Nadolig. Wedi mwynhau'r holl ddanteithion a baratowyd ar eu cyfer gan rieni, cafodd y plant hwyl yn chwarae gemau, gan gynnwys gêm y gacen flawd sy'n hen ffefryn bellach! Ac wrth gwrs 'roedd croeso mawr i'r gwestai arbennig, sef Siôn Corn, a ddaeth ag anrheg i bob un ohonynt.

CLWB CAPEL BETHANIA

Bu plant y Clwb yn casglu teganau ar gyfer Cymorth i Ferched ac fe ddanfonwyd y rhain i'w swyddfa yn y Galeri cyn y Nadolig. Hefyd, gwnaethpwyd casgliad tuag at bobl ifanc GISDA.

Aelodau Cic Bang yn Snowdonia Adventure

GWASANAETH CAROLAU BETHANIA

Braf oedd gweld Bethania yn llawn nos Sul, 22 Rhagfyr, ar gyfer gwasanaeth o ganu carolau ac eitemau gan y plant a'r ieuenctid. Diolch o galon iddynt am roi o'u gorau unwaith eto. Roeddent yn llwyr haeddu'r parti a ddilynodd!

TRIP I GOLEG Y BALA

Bu rhai o aelodau clwb CIC Felin yn aros yng Ngholeg y Bala yn ddiweddar. Cafwyd nifer o weithgareddau yn cynnwys nofio, chwarae gemau amrywiol, cwis, sinema a dysgu am storïau'r Beibl. Cafwyd llawer o hwyl ond mi 'roedd pawb wedi blino'n lân yn cyrraedd adref gan nad oedd neb wedi cysgu llawer y noson gynt!

Y ddau lun uchaf: aelodau Cic Bach a Cic Llai yn yr Hwylfan
Y llun isaf: plant Clwb Capel Bethania gyda'r teganau y buont yn eu casglu ar gyfer Cymorth i Ferched

TYNNU CRACER 'DOLIG!

BRUCE GRIFFITHS

Aw'n rhy hwyr i dynnu Cracer 'Dolig? Na, gobeithio! Dyna deitl addawol llyfr amserol, llawn danteithion, gan fy hen gyfaill y Parch. Huw John Hughes. Sonnir am lu o arferion, defodau, dathliadau a thraddodiadau'r Nadolig. Dengys y penodau cyntaf fod yr ŵyl gyfarwydd i ni heddiw, gyda'i gloddesta a'i rhialtwch, yn dyddio ers cannoedd onid miloedd o flynyddoedd cyn geni Crist. Byddai cenhedloedd Gogledd y byd yn dathlu'r 'dyddiau duon bach', pan gredid bod yr haul ar fin trengi a diffodd, gan wledda, canu a dawnsio i'w annog i ymgryfhau, a pheri i'r dydd ymestyn. Ac wrth gwrs, byddai hynny'n digwydd bob tro! Yn y Beibl, syn cyn lleied sydd o sôn am y Nadolig. Yn wir, dau efengylwr yn unig, sef Mathew a Luc, sy'n sôn am eni Iesu, a hynny heb nodi'r dyddiad na'r flwyddyn yn eglur iawn. Dyry Luc gryn sylw i Fair, gan anelu at y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, tra bo Mathew'n anelu at ei gyd-Iddewon, gan ganolbwyntio ar gyfraniad Joseff i'r hanes. Ar dudalen 29 tynnir ein sylw at hanes ymweliad Tiradates brenin Armenia, a'i osgordd o seryddwyr, â'r ymerawdwr Nero yn Rhufain, yn 66 O.C. Mae'n rhyfeddol o debyg i hanes y doethion o'r Dwyrain, a geir gan Fathew rhyw ugain mlynedd wedyn. Diddorol, ynte? Yr un mor ddiddorol yw'r trafod ar destun apocryffaidd ffug-efengyl Mathew (t.44).



Gofynnir 'a oes ystyr dyfnach, mwy arwyddocaol, i hanesion y geni?' Ac fe'n tywysir trwy'r Hen Destament i gael ateb.

Prin yr adwaenai'r Eglwys Fore'r Nadolig bellach.'Ta waeth, eir â ni'n hwyliog trwy hanes holl firi a rhialtwch Cymru - canu carolau, y plygain, y plentyn esgob, gwyliau ac arferion yr Adfent, dathlu'r Calan, casglu calennig, rysetiau pwdin 'Dolig, cusanu dan uchelwydd, ayb; ac ymwelir â 'Dolig sawl cenedl arall. Gofod nid oes i wneud chwarae teg â chyfoeth llyfr sy'n cynnig llawer mwy nag unrhyw gracer. Tybed na fuasai Sachaid Santa yn nes ati? (Oes mae sôn am Siôn Corn yma hefyd!)

CASGLIAD DORCAS

Casgliad sy'n cael ei wneud pan fydd pobl ar y ffordd allan o'r capel ar ôl gwasanaeth Cymun yw Casgliad Dorcas. Mae'r arian yn mynd at wahanol achosion da. Ar hyn o bryd rydym ym casglu tuag at Gaffi Deiniol ac yna wedi inni gyrraedd y nod byddwn yn casglu at Fugeiliaid y Stryd.

CYTÛN - WYTHNOS WEDDI DROS UNDEB CRISTNOGOL

DELYTH OSWY

Ym mis Ionawr 'roedd hi'n Wythnos Weddi dros Undeb Cristnogol. Bob blwyddyn, bydd gwahanol gapeli Bangor yn trefnu cyfarfodydd gwahanol ar gyfer yr wythnos yma. Eleni dewisodd Berea Newydd (ar y cyd â Chapel Penrallt) drefnu noson i bob oed, efo crefftau Llan Llanast i'r plant

ac oedfa anffurfiol i ddilyn ar thema Llongddrylliad Paul ger Ynys Malta.

Cafwyd paned a thrafodaeth Feiblaidd gan Emaus a'r Eglwys yng Nghaffi Deiniol (sef caffi cymunedol dan ofal y Gadeirlan) un pnawn.

'Roedd addoliad yn null Taizé (gyda myfyrdod a cherddoriaeth) yn yr Eglwys Gatholig, ac yna ar y dydd Sadwrn, aeth criw o'r capeli i gasglu sbwriel ar Fynydd Bangor, i ddangos 'Cariad at Fangor' – ein cymuned a'n pobl. Casglwyd deg llond bag o sbwriel mewn dim o dro, cyn mwynhau paned boeth haeddiannol.

Ar y bore Sul wedyn cafwyd oedfa arbennig ym Merea Newydd ar thema'r wythnos weddi. Bu'r wythnos yn gyfle braf i ddod i 'nabod rhai o'n cyd-aelodau o eglwysi eraill y ddinas.

Y GYMDEITHAS

CYNGERDD NADOLIG AELWYD JMJ

WILLIAM H. OWEN

Cafwyd noson werth chweil gan Gôr Aelwyd JMJ yn y capel nos Iau, 12 Rhagfyr. Hon oedd noson arferol y Gymdeithas i ddathlu'r Nadolig pan fu'r côr yn canu caneuon addas i gyfnod yr Ŵyl. Bu merched a dynion y côr yn canu ar wahân a chafwyd eitemau unigol ganddynt hefyd. Llywyddwyd y noson gan Mrs Eirian Howells ac 'roedd hithau, fel gweddill y gynulleidfa, wedi ei gwefreiddio gan gyfraniadau'r côr. 'Roedd gwahoddiad i bawb fynd am baned a mins pei ar y diwedd, ond nid yn y festri arferol. Yno 'roedd y pleidleisio'n digwydd ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol.

Steffan Dafydd a fu'n arwain ac yn canu

BETHAN WYN JONES A 'HEN WRAIG BRYN CANAID'

GARETH TILSLEY

Cawsom gwmni Bethan Wyn Jones i'n diddori yn y Gymdeithas yng nghyfarfod cyntaf 2020 ar 9 Ionawr. Mae Bethan yn adnabyddus am ei gwaith yn y byd darlledu yn trafod pynciau yn ymwneud â natur, boed yn llysiau neu'n anifeiliaid, ac mae ei gwaith yn hyrwyddo bodolaeth y Wiwer Goch yn yr ardal yma yn wybyddus i ni i gyd. Ers iddi raddio mewn swoleg o Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth yn y saithdegau, mae wedi gweithio ar nifer o gyfryngau, ond natur yw'r ddolen gyswllt bob tro.

Teitl ei sgwrs oedd 'Hen Wraig Bryn Canaid', sef hanes gwraig o'r enw Anne Griffith a oedd yn byw mewn tŷ o'r enw 'Bryn Canaid' mewn llecyn tu draw i Aberdaron yn edrych tuag at Enlli. Cafwyd hanes rhyfeddol gwraig ddiaddysg ym mhellafoedd Llŷn ryw ddwy ganrif yn ôl oedd â gallu arbennig i wella afiechydon. Ac nid un afiechyd, ond nifer fawr ohonynt, ac roedd ganddi feddyginiaeth briodol i drin rhestr faith o wahanol glefydau.

Fe ddaeth y diweddar feddyg Dr Emyr Wyn

Jones i wybod am ei hanes, ac fe lwyddodd ef i gael gwybodaeth fanwl am ei dulliau o drin afiechydon, oedd wedi eu trosglwyddo ar lafar yn wreiddiol cyn cael eu cofnodi ar ôl oes Anne Griffith. Mae'n ddirgelwch sut y cafodd Anne Griffith ei gwybodaeth eang am y gwahanol glefydau ac am y modd i'w trin gan nad oedd nemor ddim manylion wedi cael eu cyhoeddi yn y cyfnod hwn. A hyd yn oed petai rhai ffeithiau wedi eu cofnodi yr oedd Anne Griffith ei hun yn anllythrennog.

Cafwyd noson ddifyr dros ben, a Bethan yn dangos lluniau o'r gwahanol blanhigion a ddefnyddiai Anne Griffith i greu ei meddyginiaethau. Ac yn brawf o'r diddordeb a enynnodd yn ei chynulleidfa cafwyd nifer anarferol o sylwadau a chwestiynau yn dilyn ei chyflwyniad.

Cawsom baned a bisged fel arfer, a diolch i'r dair 'M', sef Meira, Margaret a Maisie, am eu gwaith.

Bethan Wyn Jones

COFIWCH AM DUDALENNAU BEREA AR Y GWEFANNAU!

www.gofalaethbangor.org / www.henaduriaetharfon.org

AWEN ALUN LLYWELYN-WILLIAMS

GWENNO PRITCHARD

Prynhawn Mercher, Tachwedd 6, fe ddaeth Geraint Percy Jones i roi sgwrs i Gymdeithas y Chwiorydd ar un o feirdd gorau'r ugeinfed ganrif, ond un nad oedd ei waith, meddai, wedi cael y sylw yr oedd yn ei haeddu, sef Alun Llywelyn-Williams. Testun y sgwrs oedd 'Y Golau yn y Gwyll', sef enw ei gyfrol o farddoniaeth.

Llun: Julian Sheppard

Cafodd Alun Llywelyn-Williams ei eni a'i fagu yn 1913, yng Nghaerdydd. Cafodd ei addysg gynradd ac uwchradd yn ysgolion y ddinas, gydag R.T. Jenkins yn athro arno yn yr ysgol uwchradd. Wedi hynny bu'n astudio yn y Brifysgol, lle daeth o dan ddylanwad W.J. Gruffydd. Cafodd fagwraeth eithaf breintiedig, gyda'i dad yn swyddog meddygol i Gyngor y Ddinas, ac oherwydd hynny roedd yn sosialydd brwd, ac yn fawr ei gydymdeimlad tuag at rai llai ffodus nag ef ei hun. 'Roedd ei dad hefyd yn ŵr crefyddol, fel y gwelwn yn y gerdd 'Dwy Genhedlaeth':

> Pan weddïai 'nhad yn y seiat fechan
> 'slawer dydd,
> neu yn y ddyletswydd gartre ar nos Sul,
> deuai Duw i wrando, 'r wy'n siŵr;

Yna ymhellach ymlaen yn y gerdd mae'n dweud bod ffydd ddiffuant ei dad, a'i gyfathrach rwydd â Duw, yn perthyn i gyfnod cyn i ddyn ddod i gredu

> mai gwell ffrwydriad na ffydd at symud
> y mynydd maen.

Ac eto tybed? Hen, hen yw hanes poen a mynych y gwelsai 'nhad groeshoelio'i Grist.

Bu Alun Llywelyn-Williams yn ymladd gyda'r Ffiwsilwyr Cymreig yn Normandi, lle cafodd ei anafu'n ddrwg a gorfod treulio amser yn yr ysbyty. Bu'r anaf yn ei boeni am weddill ei oes. Dyma ran o'r gerdd 'Yn yr Ysbyty':

> Cadarn gwahanfur atgof rhwng pob
> gwely twt:
> diadwy'r clawdd,
> a dwfn o gylch pob enaid unig
> yw'r anweledig ffosydd.
>
> Gwir yw, yma'n ddiwahân,
> i bob carcharor claf
> cyfarch a gwên sydd raid, a tharo sgwrs,
> trafod y modd y twyllwyd angau dro;

Priododd Alun Llywelyn-Williams gydag Alice Phoebe Stocker, nyrs o'r Rhondda, ac fe anwyd dwy ferch iddynt, sef Eryl yn 1940 a Luned yn 1942. Bu'n llyfrgellydd yn y Llyfrgell Genedlaethol am gyfnod, ac yn 1948 fe'i hapwyntiwyd yn Gyfarwyddwr Efrydiau Allanol yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor, lle y treuliodd gweddill ei yrfa. Ysgrifennodd 80 o gerddi mewn 25 mlynedd, a dwy gyfrol o ryddiaith, sef *Crwydro Arfon* a *Chrwydro Brycheiniog,* yn ogystal â'i hunangofiant, *Gwanwyn yn y Ddinas.* Bu farw yn 1988.

DIOLCH I WENDY

Fis Rhagfyr roeddem yn ffarwelio â Wendy Davies, ar ôl tua chwe blynedd o wasanaeth ganddi fel glanhawraig y capel. Cafwyd cyfle i gyflwyno rhodd iddi fel arwydd bach o'n gwerthfawrogiad o'i gwaith a hefyd o'i chymwynasgarwch a'i charedigrwydd bob amser tuag at unrhyw un a fyddai'n digwydd galw yn y capel pan oedd hi yno. Dymunwn yn dda iddi yn y dyfodol.

Wendy (ail o'r chwith) gydag Eirian, Cynthia a Menna

Amlenni Casgliad 2020

Gobeithio eich bod chi, erbyn hyn, wedi derbyn eich amlenni casgliad am 2020. Er mwyn lleihau gwastraff rydym wedi rhannu llai o amlenni nag arfer, gan fod nifer o'n haelodau wedi deud nad oeddent yn eu defnyddio ac felly yn eu taflu!

Ond i'r aelodau hynny sydd yn eu defnyddio yn gyson mae digon ar gael, felly holwch am ragor os bydd eich cyflenwad wedi gorffen.

Hefyd efallai fod hyn yn gyfle da i atgoffa pawb fod modd cyfrannu yn uniongyrchol drwy'r banc. Croeso i chi holi i gael mwy o wybodaeth a'r ffurflen briodol.

Diolch i bawb am eu cyfraniadau cyson,

Cynthia Owen
(Trysorydd)

EMYN A DARLLENIAD

	EMYN	DARLLENIAD
2 Chwefror	OEDFA DEULU	
9 Chwefror	158 (O,O,O mor dda...) Noa Dafydd	Salm 36:5–9 (Beibl.net) Cai Dafydd
1 Mawrth	786 (Cofia dy Greawdwr) Tomos Roberts	Salm 119:1–8 (Beibl.net) Siôn Roberts
8 Mawrth	151 (Mae'n Duw ni mor fawr) Elena Owen	Salm 99:1–5 (Beibl.net) Trystan Owen
15 Mawrth	827 (Cofia'n gwlad) Fflur Edwards	Deut 6:1–2, 4–9 (Beibl.net) Catrin Edwards
22 Mawrth	Emyn 681 (Dod ar fy mhen) Bedwyr Llŷr	Salm 32:8–11 (Beibl.net) Llio Eurgain
29 Mawrth	Emyn 46 (O Dad, fe'th garwn) Fflur Jones	Salm 95:1–7 (BCND) Meilyr Lynch
5 Ebrill	SUL Y BLODAU – OEDFA DEULU	

BCN – Y Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig
neu Y Beibl Cymraeg Newydd
Diolch yn fawr am eich cyfraniad

Os bydd plentyn neu deulu'n newid Sul gyda rhywun arall, hysbyser Menna Baines – menna@fforddpenrhos.plus.com / 07867 697921. Diolch.

Cofiwch:
BOB NOS LUN
CIC BANG BACH:
6.15–7.15
CIC BANG:
7.30–9.00

FFURFLENNI GWYBODAETH – NODYN ATGOFFA

Beth amser yn ôl fe ddosbarthwyd ffurflenni i'r holl aelodau ar gyfer rhoi caniatâd inni ddal gwybodaeth (cyfeiriad a manylion cyswllt) amdanynt. O dan y Ddeddf Diogelu Data mae'n rhaid inni gael eich caniatâd i wneud hyn. A wnaiff pawb sydd heb eu llenwi a'u dychwelyd eisoes wneud hynny ar frys o.g.y.dd.? Gallwch ddod â nhw i swyddfa Berea Newydd neu eu rhoi i flaenor eich corlan. Os oes arnoch angen copi newydd o'r ffurflen rhowch wybod i un o swyddogion y capel.

Y DYDDIADUR

CHWEFROR

Mercher 5, 2.00	SEIAT (BN)
Mercher 12, 2.00	SEIAT (BN)
Mercher 12, 6.30	PORTREAD LLION WILLIAMS (MEWN CYMERIAD) O'R ESGOB WILLIAM MORGAN Bethania, Y Felinheli (6.30pm) Croeso i bawb. Gwneir casgliad at y costau.
Mercher 12, 7.30	CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL CYTÛN Siaradwraig wadd: Kay Polley, Trefnu Cymunedol Cymru, Wrecsam: 'Dysgu Nid Llwgu' Emaus Agored i aelodau pob eglwys sy'n perthyn i Cytûn
Iau 13, 7.00	Y GYMDEITHAS (BN) 'Genesis Midffîld' – sgwrs gan Alun Ffred Jones Llywydd: Geraint Percy Jones
Mawrth 18, 1.30	HENADURIAETH ARFON Eglwys y Berth, Penmaen-mawr
Mercher 19, 7.30	PERFFORMIAD AMLGYFRWNG GAN ARTISTIAID O FRYNIAU CASIA A CHYMRU Capel Caersalem, Caernarfon Croeso i bawb
Mercher 26, 2.00	SEIAT (BN)
Iau 27, 5.30	PWYLLGOR YSGOL SUL (BN)

MAWRTH

Mercher 4, 2.00	CYMDEITHAS Y CHWIORYDD (BN) Croeso i bawb
Gwener 6, 11.00	DYDD GWEDDI CHWIORYDD Y BYD Emaus
Iau 12	CINIO GŴYL DEWI
Iau 12, 7.00	PWYLLGOR BLAENORIAID (BN)

SIÔN CORN, SGIDIAU NEWYDD A SBRI

Parti Nadolig Ysgol Sul Berea Newydd

'Trainers' pwy? Gw. yr ateb ar dud. 6

Rhai o aelodau Cic Felin yng Ngholeg y Bala